

Beth ydw i'n ei wybod eisoes: Beth ydw i wedi'i ddysgu hyd yn hyn:
Dwi wedi gweithio mewn ysgol gynradd am 14 mlynedd erbyn hyn, yn gweithio gyda plant o 3 hyd at 11 mlwydd oed. Rydw i hefyd yn rhiant i ddau o blant ac yn defnyddio fy mhrofiadau personol yn ogystal a fy mhrofiadau proffesiynol wrth gweithio gyda plant. Dros y flynyddoedd rydw i wedi derbyn hyfforddiant mewn llawer o bynciau gwahanol, gan gynnwys “Tric a Chlic”, “WELLCOMM” a “POPAT”. Rydw i hefyd wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant cymorth cyntaf, hylendid bwyd a diogelu plant. Fel rhiant a fel aelod o staff ysgol, rydw i yn deall datblygiad plentyn. Rydw i hefyd yn gwybod sut i wahaniaethu gwaith wrth gallu y plant.

Beth ydw i eisiau ei ddatblygu:
Wrth astudio a ddefnyddio y pynciau yma, rydw i wedi sylweddoli fy mod yn mwynhau gweld cynnydd y mae'r plant yn gwneud gyda fy ymyriad. Oherwydd hyn, hoffwn i ddysgu mwy am strategaethau a ddefnyddir yn lleoliadau y flynyddoedd cynnar. Rydw i hefyd wedi sylweddoli fy mod eisiau gweithio gyda plant ifanc (dan 5) fel fy mod yn gallu rhoi strategaethau yn ei lle cyn bod y broblem yn dechrau er mwyn gwneud gwahaniaeth

Gwrthrychol	Camau gweithredu (Sut byddaf yn cyflawni'r amcan hwn/beth sydd angen ei wneud?)	Adnoddau (Pa gefnogaeth ac adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r amcan hwn?)	Dyddiad Targed ar gyfer cyflawni amcan	Meini prawf llwyddiant (Sut byddaf yn gwybod fy mod wedi cyflawni'r nod hwn, sut byddaf yn adolygu hyn?)
Gwella fy rheolaeth amser	Defnyddio y sgiliau dysgais am yn y modiwl gyntaf Bod yn barod I astudio	Nodiadau cwrs Amserlen rwyf wedi creu yn ystod fy aseiniad cyntaf Cymorth teulu	Tachwedd 2023	Bydd yr aseiniad yn barod cyn y dyddiad cau Adolygu yr amserlen yn fisol
Speech and Language links	Siarad i Gwennan Jones, ALNCO yr ysgol, gofyn am gyrsiau sydd ar gael i mi	Defnyddio gliniadur ysgol Amser Cymorth cydweithwyr	Tachwedd 2023	Bydda i yn gallu helpu cydweithwyr yn asesu plant
Lego Therapy	Siarad i Gwennan Jones, ALNCO yr ysgol, gofyn am gyrsiau sydd ar gael i mi	Amser	Tachwedd 2023	Bydda i yn gallu gweithio gyda grwpiau bach o blant ar lawr y dosbarth
Diogeli Plant lefel 3	Cofrestru trwy y Brifysgol	Amser Gwarchodwr Car	Ionawr 2024	Tystysgrif ar ol cwblhau y hyfforddiant
Ymarferydd Proffesiynol	Mynychu darlithoedd wythnosol Cymryd rhan mewn trafodaethau yn ystod darlithoedd	Amser Car Arian Gwarchodwr	Gorffennaf 2025	Bydda i yn graddio Bydd statws Ymarferydd proffesiynol gen i

Bydd fod yn fyfyrion ddim yn dod yn naturiol i rhai, ond wrth ddysgu o y modelau sydd ar gael, fydd yr ymarferydd proffesiynol yn gwella ei gwaith ac ei hun. Mae y gallu i dderbyn beirniadaeth yn werth pwysig i ymarferwr proffesiynol. Tra yn myfyrion ar sefyllfaoedd, nid yw pob digwyddiad yn gadarnhaol ac felly gall ymarferwr proffesiynol deimlo ei fod yn cael ei feirniadu, naill ai gan ei hun neu gan cyfoedion.


Esboniodd Brock (2015) bod myfyrion a ddefnyddio ymarfer myfyrion yn graidd werth ac yn dal rôl allweddol mewn hyfforddiant proffesiynol. Mae yna llawer o wahanol disgyblaethau fel rhan o fyfyrion yn enwedig mewn addysg ac yn rhan hanfodol o arfer proffesiynol. Mae meddwl am, a dadansoddi ymarferion, yn ymarfer myfyrion. Wrth newid, herio a ddatblygu yr ymarferion bydd yr ymarferydd proffesiynol yn gwella ei waith. Dyle hyn fod yn rhan o pob peth mae yr ymarferydd proffesiynol yn ei wneud ac wrth myfyrion, gwella. (Pacey, 2016)

Mae ymarfer myfyrion yn bwysig wrth gweithio yn y blynyddoedd cynnar achos mae yr amodau dysgu yn newid yn ddyddiol. Fydd yr ymarferydd proffesiynol weithiau yn gorfod newid ei dasg i gyd-fynd gyda anghenion y plentyn, efallai bydd rhywbeth yn codi ar y diwrnod, er enghraifft anifail anwes yn sâl, a hefyd y tywydd. Mewn achosion fel hyn fydd yr ymarferydd proffesiynol yn gallu cynllunio yn y foment (Little learners, dim dyddiad) i newid trefniadau, neu rhan-agwedd y dasg. Wrth myfyrion ar y dasg wedyn, gall yr ymarferydd proffesiynol cynllunio am tywydd gwael neu ffactorau eraill a allai effeithio.


Mae ymarfer myfyrion yn helpu yr ymarferydd proffesiynol i gwella sgiliau, bod yn fwy hyderus a gwella ansawdd yr addysg y mae nhw yn cynnig i blant. (Birthto5matters, 2021)

Fel a nodwyd Dewey (1933) mae dau fath o weithred, y gweithred arferol ac y weithred myfyrion. Dydy y weithred arferol ddim yn newid llawer, ac yn fwy sefydlog. Er mae gweithred myfyrion yn agored i newidiadau ac yn cael ei cwestiynnu ar phob achlysur, er mwyn gwella canlyniadau pob agwedd y gwaith. Er nad oes llawer o newid yn y weithred arferol, dylai ymarferydd proffesiynol cofio fod y weithred yma yn seiliedig ar arfer a thraddodiad ac felly y gall newid gyda thraddodiadau eraill.

Wrth ddefnyddio ymarfer myfyrion bydd ymarferydd proffesiynol yn hunan asesu er mwyn gwella. Mae'r ymarferydd proffesiynol yn myfyrion ei hunan, ond hefyd gallynt helpu wrth cymryd rhan mewn arsylwi cymheiriad.



Model Jasper (2013)



Model Gibbs (1988)

Mae model ymarfer myfyrion Jasper (2013) yn syml ac yn syth at y pwynt, gan ddefnyddio profiad, myfyrion arno a pha gamau a gymerir yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae model Gibbs (1988) yn fwy manwl, gan ofyn mwy o gwestiynau am y digwyddiad, beth digwyddodd, holl deimladau y digwyddiad, gwerthuso a myfyrion ar y da ac ar y drwg a allai fod wedi digwydd, dadansoddiad personol o y digwyddiad, a casgliad yn cwestiynu beth arall y gellid bod wedi ei wneud, ac yn olaf cynllun gweithredu ar yr hyn fydd yn digwydd y tro nesaf. Gall defnyddio model Jasper (2013) fod yn gyflym ar gyfer rhai sefyllfaoedd adfyfyrion, er y gallai hyn fod yn brin o fanylion. Er mae gan model Gibbs (1988) fwy o gwestiynau ac felly angen mwy o fanylion. Mae gan y ddau fodel yr un canlyniad, ond byddai Jasper (2013) yn fyr ac yn gryno, tra byddai Gibbs' (1988) yn hirach ac yn fwy manwl. Mae y ddau fodel yn wahanol o rhan y cwestiynau a ofynnir, ond mae ganddynt ddeilliannau tebyg ac maent yn effeithiol.

I gloi, gall ymarferwyr proffesiynol elwa o fyfyrion ar brofiadau, er mwyn gwella eu gwaithgareddau gyda plant. Pa bynnag fodel ddefnyddir, dylai y canlyniad fod yr un fath. Gall myfyrion yn rheolaidd annog ymarferwr proffesiynol i wella cynllunio a defnyddio gwahanol technegau mewn gweithgareddau ar gyfer eu themâu. Dylid annog cyfoedion i fyfyrion gan y byddai amrywiaeth o anwybyddiaeth a safbwyntiau hefyd yn fuddiol. Gall beirniadaeth adeiladol fod yn ddefnyddiol wrth fyfyrion a gall helpu gyda chynllunio gweithgareddau yn y dyfodol. Yn ôl Durham University (dim dyddiad) Gellir annog ymarferwr proffesiynol i fyfyrion ar y cyd â chydweithwyr, gan gwella gwaith tîm. Hefyd fydd angen cofio fod amrywiaeth o thraddodiadau gwahanol i ystyried wrth cynllunio ac hefyd llawer o ffactorau eraill a allai effeithio.

Diffiniad y geiriadur (Collins, 2007) o weithiwr proffesiynol yw person sy'n ymgysylltu neu'n gymwysedig ac yn hynod gymwys mewn swydd. Mae Perez (2019) yn esbonio bod gwerthoedd gweithwyr proffesiynol yn arwain y safonau, y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar gyfer rôl swydd a nad oes rhaid iddynt feddu ar gymwysterau cofrestredig i fod yn dda yn y swydd y mae'n ei gwneud. Mae Gasper (2015) yn esbonio bod mwy o bwyslais a dealltwriaeth yn y blynyddoedd cynnar o rinweddau a gwerthoedd unigolyn yn hytrach na y cymwysterau sydd ganddo. Mae Gasper (2015) hefyd yn nodi bod y rhinweddau hyn yn cynhyrchu y gweithwyr proffesiynol gorau posibl sydd yn ymroddedig i arfer gorau y proffesiwn. Dylai ymarferydd proffesiynol weithio yn dda fel aelod o dîm, meddu ar wybodaeth dda am blant ac eu datblygiad, meddu ar sgiliau cyfathrebu da a bod yn ystyriol. Mae Welsh Government (2015.a) yn nodi wrth gweithio yn y sector blynyddoedd cynnar, yr arfer proffesiynol, y dylai pob plentyn teimlo ac i fod yn ddiogel, ei fod yn cael gofal, ei fod yn cael ei werthfawrogi a bod eu holl anghenion yn cael eu diwallu. Dylai y plant fod yn iach a chael mynediad eang at ddysgu a bod yr ymarferydd proffesiynol yn deall eu datblygiad personol, gan annog y plant bob amser.

Mae Hyson and Tomlinson (2014) yn awgrymu fod yr ymarferydd proffesiynol yn modelu ei rôl at y plant, ac felly bydd y gwerthoedd, fel fod yn ymroddedig, cadarnhaol ac yn brwdfrydig yn bwysig iawn i ddysgu y plant sut i fod yn unigolion iach hyderus. Fel a nodir Welsh Government (2015.b) y gobaith yw fod pob plentyn yn datblygu i fod yn uchelgeisiol, galluog, iach, hyderus, mentrus, creadigol ac yn egwyddorol a gwybodus. Mae yn bwysig fod yr ymarferydd proffesiynol gyda gwerthoedd da er mwyn dysgu y plant yn y ffordd gorau. Mae yn bwysig i fod yn onest. Wrth fod yn onest gyda plant fe fydden nhw yn dysgu i fod yn onest hefyd.

Mae cyfathrebu a pherthnasoedd hefyd yn bwysig i ymarfer proffesiynol oherwydd mae yr ymarferydd proffesiynol yn modelu iaith i blant, mae rhaid trafod gyda cydweithwyr ac amlasiantaethau gan sicrhau fod pawb yn deall. Mae yn bwysig fod llais y plentyn hefyd yn cael ei glywed a chydabod er mwyn i blentyn teimlo ei fod yr ymarferydd proffesiynol yn gwranddo. Gyda cyfathrebu mae yn bwysig bod yr ymarferydd proffesiynol hefyd yn gwranddo tra yn anfeirniadol gan ddangos parch at person, ei thraddodiadau a gwahaniaethau diwyllianol. Mae yn bwysig i adeiladu perthnasau gyda plant, rhieni/gwarcheidwaid ac hefyd amlasiantaethau.

Bydd meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth fanwl yn bwysig yn y blynyddoedd cynnar. Mae angen adnabod cyfnodau datblygiad plentyn, dealltwriaeth o anghenion arbennig, y gallu i wahaniaethu rhwng galluoedd wahanol y plant ac hefyd agweddau ar ddiogeli. Weithiau bydd yr ymarferydd proffesiynol yn llais i blentyn. Mewn sefyllfaoedd ble mae plentyn ddim yn gallu siarad ond hefyd os oes mater diogelu yn codi, yr ymarferydd proffesiynol sydd yn gorfod lleisio ei pryderon i amlasiantaethau.

Assignment code: ECEY4009c

Student id: 2306431

Word Count: 2146

Gan gynnwys rhannu y llwyth-waith, mae gweithio fel tîm yn helpu cadw diddordeb y plentyn ac yn cadw y plentyn ar y blaen y dysgu. Mae amlasiantaethau yn cynnwys arywiaeth eang o sgiliau a gwerthoedd gwahanol, er mwyn helpu plentyn i ddatblygu hyd eithaf ei gallu. Bydd sgiliau ac adnabyddiaeth yr amlasiantaethau yn fuddiol ac yn helpu ymarferydd proffesiynol i ehangu yr adnabyddiaeth y maent yn defnyddio yn ddyddiol.

Wrth cynllunio fydd yr ymarferydd proffesiynol, y cydweithwyr ac y plant yn ymwybodol o beth sydd yn digwydd yn y sesiwn, ar y ddiwrnod ac yr wythnos yna. Mae cynllunio yn bwysig er mwyn cadarnhau fod y cwricwlwm yn cael ei ddilyn ac fod y gweithgareddau yn briodol i y phwnc neu y thema sydd yn ei le. Mae cynllunio hefyd yn ddefnyddiol i wahaniaethu tasg ac eu haddasu i anghenion yr unigolion. Wrth myfyrio ar yr ymarferion fe fydd yr ymarferydd proffesiynol yn gallu gwneud y newidiadau perthnasol.

Mae egwyddorion CCUHP (dim dyddiad) yn llywio ymarfer proffesiynol wrth sicrhau bod addysg a gofal plant yn cael ei arwain gan, ac yn canolbwyntio ar, y plentyn. Bydd angen i yr ymarferydd proffesiynol sicrhau fod pob crefydd a traddodiad yn cael ei ddysgu ac os oes angen amser penodol i gweddio ganrhai, fod ei hanghenion yn cael eu diwallu. Mae hefyd yn gwneud yn siwr fod cydraddoldeb a fod pob plentyn yn ymwybodol ac yn deall ei hawliau er mwyn ei ddiogeli. Hyn fydd yn sicrhau fod lleoliad yn ddiogel ac yn hapus i plant.

I gloi, mae Perez (2019) a Gasper (2015) mewn cytun, dyle fod ddim pwyslais ar pha cymhwysterau sydd gan person er mwyn fod yn ei alw yn gweithiwr proffesiynol. Gall profiadau bywyd, sgiliau ac adnabyddiaeth gwneud iddynt fod yn proffesiynol. Yn ôl Hyson and Tomlinson (2014) dylai ymarferydd proffesiynol cael gwerthoedd addas, fel fod yn ymroddedig, cadarnhaol ac yn brwdfrydig yn bwysig iawn i ddysgu y plant sut i fod yn uchelgeisiol, galluog, iach, hyderus, mentrus, creadigol ac yn egwyddorol a gwybodus (Welsh Government, 2015.b). Mae angen i ymarferydd proffesiynol fod yn sylwgar, er mwyn sylwi ar newidiadau yn plentyn neu i gwbwlhau arsylwadau cynnydd. Dylent fod yn gweithio yn dda o fewn tîm, er mwyn dangos esiampl da at y plant, a hefyd gwrandäwr da. Dylen nhw gael adnabyddiaeth da o llawer o bethau, gan gynnwys hawliau plant, ddiogeli, datblygiad plant ac y cwricwlwm yn ogystal a pha cymeriadau sydd yn poblogaidd. Dylent fod yn gallu gwahaniaethu gwaith a thasgau ar gyfer anghenion unigolion, gan sicrhau fod cydraddoldeb i bawb, ac i fod yn diduedd. Wrth dilyn Welsh Government (2015.a) y dylai yr ymarferydd proffesiynol gwneud i bob plentyn teimlo ac i fod yn ddiogel, i wneud yn siwr ei fod yn cael gofal, ei fod yn cael ei werthfawrogi a bod eu holl anghenion yn cael eu diwallu. Dylai yr ymarferydd proffesiynol annog y plant i fod yn iach ac i sicrhau bod ganddynt mynediad eang at ddysgu gan fod yr ymarferydd proffesiynol yn deall eu datblygiad personol, ac yn annog y plant ar bob achlysur.

Assignment code: ECEY4009c

Student id: 2306431

Word Count: 2146

Reference List

Birth to 5 matters. (2021) Professional reflective practice. Available at: <https://birthto5matters.org.uk/wp-content/uploads/2021/03/PDF-20-Professional-Reflective-Practice-1-1.pdf> (Accessed: 28th October 2023).

Brock, A. (2015) *The early years reflective practice handbook*. London: Routledge.

CCUHP (dim dyddiad) *Childrens rights*. Available at: <https://www.childcomwales.org.uk/uncrc-childrens-rights/uncrc/>. (Accessed 29th October 2023).

Collins. (2007). *professional*. [Online]. collinsdictionary.com. Last Updated: 2023. Available at: <https://www.collinsdictionary.com/dictionary/english/professional> [Accessed 28 October 2023].

Dewey, J. (1933). *A restatement of the relation of reflective thinking to the educative process*. DC Heath.

Durham University. (no date) *Supporting and facilitating collaborative reflection: exploring the multiple roles of the facilitator*. Available at: https://intref.webspace.durham.ac.uk/wp-content/uploads/sites/53/2021/06/Facilitating-collaborative-reflection_Meth_CS_DU_Final.pdf (Accessed: 28th October 2023).

Gasper, M. (2015) 'Professional Practice and Early Childhood Today', in Reed, M. and Walker, R. (ed.) *A Critical Companion to Early Childhood*. 1st edn. London: Sage.

Gibbs, G. (1998) *Learning by Doing: A Guide to Teaching and Learning Methods*. Oxford: Further Education Unit, Oxford Polytechnic.

Hyson, M. and Tomlinson, H. (2014). *The early years matter: education, care, and the well-being of children, birth to 8*. New York: Teachers College.

Jasper, M. (2013). *Beginning Reflective Practice*. Andover: Cengage Learning.

Little learners. (dim dyddiad) *Planning in the moment*. Available at: <https://youtu.be/oslwJXmEtk> (Accessed: 28th October 2023).

PACEY (2016) *Developing Self Reflective Practice*. Available at: [https://www.pacey.org.uk/Pacey/media/Website-files/PACEY%20member%20practice%20guides%20\(PDFs\)/PG04-self-reflective-practice.pdf](https://www.pacey.org.uk/Pacey/media/Website-files/PACEY%20member%20practice%20guides%20(PDFs)/PG04-self-reflective-practice.pdf) (Accessed: 28th October 2023).

Welsh Government (2015.a) *Early Years Outcomes Framework*. Available at: <https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2019-07/early-years-outcomes-framework.pdf>. (Accessed: 28th October 2023).

Welsh Government (2015.b) *Y cwricwlwm newydd: poster*. Available at: <https://www.llyw.cymru/y-cwricwlwm-newydd-poster>. (Accessed: 28th October 2023).